

Ymddiried a Dyfalbarhau

Wrth i ni ddechrau tymor ysgol newydd ysgol mae hi'n amser pryd y byddwn, yn arferol, yn annog ein pobl i ail-afael yn yr holl weithgareddau sydd yn cael eu cynnal yn ein haddoldai.

Eleni mae'r sefyllfa yn un gwahanol a heriol, ac mae ambell i gapel am geisio agor y drws (gan fawr obeithio eich bod yn dilyn y canllawiau yn fanwl sydd ar ein gwefan!) ac eraill am bwylo am ychydig cyn rhoi'r trefniadau yn eu lle. Sut bynnag mae arnoch yn lleol mae'n bwysig ein bod yn cadw'n iach yn ysbrydol yn ogystal ag yn gorfforol, ac mae hynny'n golygu cadw mewn cysylltiad trwy weddi gyda'n Duw a thrwy gyfarfod (yn y capel neu yn rhithiol) â'n cymuned ffydd.

Dyma'r cyfnod pan mae pawb yn gweld y dydd yn dechrau byrhau gydag ymwybyddiaeth ein bod yn symud tuag at yr Hydref a'r Gaeaf. Mae hynny yn gallu creu digalondid i rai. Cofiw'n hen ffarmwr oedd wastad yn ceisio codi calon eraill drwy ddweud 'Ni fethodd y Gwanwyn erioed', a drwy drefn rhagluniaeth fe oedd yn berffaith iawn.

Efallai, yn yr un modd, fod llawer yn ein plith yn digalonni mewn cyfnod heriol, a'n gwaith ni ydi ymddiried yn addewidion yr Arglwydd gan gofio y daw ei Wanwyn Ef i'n rhan mewn da bryd. Mae'n gallu i gadw yn ffyddiog yn llwyr ddiybennu ar ein parodrwydd i ymddiried yn ein Duw am yr holl bethau sydd tu draw i'n dirnadaeth. 'Ymddiriedaf yn dy allu, mawr yw'r gwaith a wnest erioed' (C.Ff. 702) dyna oedd sicrwydd William Williams, Pantycelyn a llawer o'n cyndadau yn y ffydd.

Pregethais yn ddiweddar am rai o anturiaethau yr Apostol Paul. Gwyddom fod ei brofiadau ysbrydol wedi rhoi ymddiriedaeth llwyr iddo yn ein Ceidwad. Rhyfeddol yw'r hanes amdano yn pregethu yn Lystra (Actau 14) a'r Iddewon o Antiochia (oedd erbyn hynny yn ei gasáu) yn troi fyny a pherswadio'r dyrfa i luchio cerrig ato tan ei lusgo allan o'r ddinas 'gan dybio ei fod wedi marw'. 'Ond ffurfiodd y disgyblion gylch o'i gwmpas, a chododd yntau a mynd i mewn i'r ddinas.' (adnod 20). Dyna i chi

(parhad ar dudalen 2)

Yr Ysgrifennydd Cyffredinol

Gan ryfeddu fod amser yn cyflymu ymlaen sylweddolwyd fod yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn agosáu at ddiwedd ei dymor o dair blynedd ers iddo gael ei ail benodi yn 2017 i weithredu hyd diwedd 2020. Yn dilyn trafodaeth rhyngof a'r Parchedig Meirion Morris, ac yn unol â'r cytundeb gwreiddiol fe estynnwyd gwahoddiad iddo ymestyn ei dymor am dair blynedd ychwanegol hyd at ddiwedd 2023. Gyda diolch diffuant am ei holl ymdrechion cydwybodol fe fu i Bwyllgor Gwaith Bwrdd y Gymanfa Gyffredinol gadarnhau y trefniant.

Boed i ni oll weddio ar i Dduw ei nerthu gan roi iddo gras a gweledigaeth i symud ein Cyfundeb ymlaen i wasanaethu ein Ceidwad a'i bobl.

Parch Marcus Wyn Robinson, Llywydd y Gymanfa Gyffredinol

MEINI BYWYIOL (5)


Y Ddinas Sanctaidd

Mae ymweld â Jerwsalem yn brofiad emosiynol a chofiadwy iawn. Dyma'r llwyfan lle'r actiwyd allan oriau olaf ein Harglwydd. Yn rhyfeddol, wedi dwy fil a mwy o flynyddoedd, a newidiadau mawr dros y canrifoedd, mae mannau a meini yno heddiw fel y gwelodd Iesu hwy. Dim ond sylfeini'r deml sydd wedi goroesi a hwn yw Mur yr Wylofain sy'n enwog drwy'r byd gan fod yr Iddewon yn mynd ato i weddio – y dynion a'r merched ar wahân. Bydd gweddïau yn cael eu hysgrifennu ar bapur a'u gwthio rhwng y meini. Wedi aros fy nhro i gael lle i fynd at y mur ni allwn weddio, doedd yr un gair yn dod, felly gweddïais frawddegau o Weddi'r Arglwydd- 'Deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys, megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.'

Mae'r meini hyn yn gysegredig i'r Iddewon. Ar safle'r deml ei hun mae mosg sy'n gysegredig i'r Mwslem. Ychydig o bellter i ffwrdd mae eglwys y Beddrod Sanctaidd. Dyma ran o Jerwsalem lle mae Iddewiaeth, Cristnogaeth a Mwslemiaeth yn dod yn llythrennol agos at ei gilydd ac mae angen gweddïo am heddwch a chytgord yn y fangre arbennig yma.

Mae Gardd Gethsemane ar waelod Mynydd yr Olewydd. Un o brofiadau mawr fy mywyd i oedd cael gweinyddu Swper yr Arglwydd yn yr ardd i'm cyddeithwyr, gan edrych i fyny ar furiau'r ddinas a'r haul yn machlud y tu ôl iddynt. Gerllaw'r ardd heddiw mae

(parhad ar dudalen 7)



Eglwys yr Holl Genhedloedd

LLE I ENAID GAEL LLONYDD



Dyffryn Clodwiw Clwyd. Llun: Hawffraint © Jeff Buck trwy drwydded CC-sa/2.0

Rwyn paratoi'r sylwadau hyn yng nghanol cyfnod y Coronafeirws. Cyfnod pan ydym yn clywed ymadroddion newydd megis yr 'ymbellhau cymdeithasol', 'cadwch yn iach', 'cadwch yn ddiogel', ac 'arhoswch adref'. Ydi, mae pob man i fod i gael **LLONYDD!** Ond i ble felly y medraf fynd â chi. Dewch hefo mi i fro fy Mebyd (ardal Trefnant), ond plîs peidiwch â dweud wrth neb, jyst rhag ofn!

Trefnant

Cefais fy magu gyda fy mrawd hynaf, am y tair blynedd ar ddeg cyntaf ar fferm yng nghanol Dyffryn Clwyd. Rwy'n ei gofio fel ddoe. Rwy'n credu mai'r cyfnodau y byddwn yn ei gofio fwyaf o'n bywyd yw'n cyfnodau hapusaf a thristaf. Cefais blentyndod hapus, cariadus, Cristnogol, nad oedd ei well. Profais y pethau gorau. Fferm laeth oedd gennym, yn cadw tua chant o ddefaid a channoedd o ieir a gai eu magu gan fy Mam. Roeddwn yn hoff iawn o'r fuches odro. Daeth ambell i Gwen neu Flodwen

yn ffefryn lawer gwaith. Gan fod rhaid cadw'r Sul yn sanctaidd, cofiaf glywed oglau gwair yn crasu yn y cae, yn barod i'w 'feilio' ac am hanner nos deuai'r glaw a hynny am weddill yr wythnos. Deuai ambell i w'r mewn coler gron atom ar y Sul hefyd.

Daliaf i gofio ambell i gymeriad a ddaeth i helpu'n nhad, megis Dafydd Owen, gŵr hwyliog a difyr gyda chwerthiniad iach. Hynny yw ar wahân i'r un bore hwnnw yn Ionawr '69, pan gollais fy nhad – yn sydyn, a daeth diniweidrwydd dau frawd i ben. Pan symudon ni i Ruthun ym mis Medi'r flwyddyn honno, byddai'n naturiol i chi feddwl, mai dyna fyddai'r diwedd ar y cwbl, a'n bod wedi gweld y lle am y tro olaf – ond nid dyna a fu!

Cofio

Dach chi'n gweld gyfeillion, byddaf yn dianc yno, yn edrych o gyfeiriad y ffordd ger llaw, yn eistedd a myfyrio, cerdded a chrwydro. Mewn gwirionedd yn ceisio ail fyw rhywbeth a ddiplannodd am byth

Ymddiried a Dyfalbarhau (parhad o dudalen 1)

esiampyl ryfeddol o ddyfalbarhad – nid yn unig wrth gyfeirio at Paul ond hefyd wrth gofio'r disgyblion a ddaeth i'w amddiffyn. Nes ymlaen yn y bennod cawn yr hanes am sut y bu i Paul a Barnabas ddychwelyd i Lystra 'a chadarnhau eneidiau'r disgyblion a'u hannog i lynu wrth y ffydd.'

Diolch i'r drefn nid oes neb wedi taflu cerrig at y Llywydd yma, (hyd yn hyn!!) ond efallai fod nifer yn ein plith yn teimlo fod trafferthion y Covid-19 wedi ein llorio. Yr her, fel i Paul, ydi deall sut orau i ymateb. Roedd ei ymddiriedaeth yn rhoi'r nerth iddo godi ar ei draed (er ei fod yn wan ac yn boenus) a cheisio dyfalbarhau i gyflawni ewyllys Duw.

Os bydd rhai o aelodau fy ngofalaeth yn darllen yr erthygl yma fe fyddant yn sicr

o wenu gan wybod mai 'dyfalbarhau' yw hoff air y gweinidog! Ni all neb ohonom newid y pethau annisgwyl a heriol a ddaw i'n rhan ond, gyda ffydd, fe all pob yr un ohonom newid sut yr ydym am ymateb!

Caniatewch i mi felly ddychwelyd at fy thema fel Llywydd – 'Digon i ti fy ngras i; mewn gwendid y daw fy nerth i'w anterth.' Cofiwch mai Paul fynegodd y geiriau, a cheisiwn, fel ef, beth bynnag ddaw i'n rhan tros y misoedd nesaf, ymddiried yn ein Duw a dyfalbarhau i'w wasanaethu – er clod Iddo ac er budd Ei bobl.

Yr eiddoch yn Ei wasanaeth.

**Parch Marcus Wyn Robinson,
Llywydd y Gymanfa Gyffredinol**

ac sy'n perthyn i'r **hyn a fu** yn fy mywyd ac nid **yr hyn sydd**, rhywbeth a fodolai **cynt** ac nid **rwan**. Atgofion **y gorffennol yn** llithro i'r **presennol** a minnau'n sylweddoli hynny. Dyma atgof sydd yn gwrthod fy ngadael ac yn parhau i fyw ynof.

Ai profiad fel hyn yw lle i'r enaid gael llonydd sef lle i ddianc iddo? A gaf gynnig yn wylaidd mai 'le' yw'r ateb.

Ond, beth sydd yn fy mlino weithiau yw'r teimlad annymunol hwnnw o euogrydd am fynd yn ôl at rywbeth am ei fod yn sanctaidd i mi, dychwelyd at rywbeth nad yw'n eiddo i mi bellach. Oes raid i hyn fod? Cynhyrfu'r gorffennol trwy fy mhresenoldeb tawel cuddiedig. Ond gwyddom bawb nad oes cyfraith gwlad yn ei wahardd, a dyna'r cysur mwyaf a newyddion da! Ac onid lle i ddianc iddo yw encil yr enaid sut bynnag? Fedrwch chi fyth dynnu'r ddynoliaeth a thrysorau dynol oddi wrth ei gilydd, boed hapus neu drist, llwyddo neu fethu. I ble mae hyn i gyd yn mynd â ni fe 'ch clywaf yn gofyn? Ydio'n berthnasol?

Yr Arglwydd Iesu

Felly, rwyf am ofyn yn ofalus, a oedd gan yr Arglwydd Iesu ei lecynnau sanctaidd a manau i ddengid iddynt yn ystod ei fywyd? Mae digon o dystiolaeth ar dudalennau'r Testament Newydd i brofi hynny. Yma gwelwn brofiadau, a dylanwadau gorau bywyd ein Gwaredwr a'i wersi ar y ddaear ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Cofiwch am ei fagwraeth fel mab y Saer, yn ei gartref yn Nasareth gyda'i Dad Joseff y crefftwr enwog, ac oddi yno mae ei brofiadau yn deillio. Pwy fedrai anghofio'r hanes amdano ar goll ar drothwy'r Pasg, a'i dad a'i fam yn chwilio amdano a'i ddarganfod yn y deml ac yn eistedd yng nghanol yr athrawon. Do, fe fynnodd fynd yn ôl at ei Dad nefol i le nefol i glydwch y deml, hyd yn oed ym mhresenoldeb ei rieni naturiol. Yno, yn ôl yr hanes yn Luc roedd yn rhaid iddo fod. Dyna'r cysur, dyna'r efengyl. Dyma le i enaid gael llonydd. Dychwelyd a theimlo'n well, dychwelyd heb deimlo fod dim o'i le!

Wrth derfynu, efallai mai'r ffordd orau o grynhoi'r cwbl fyddai drwy ddyfynnu geiriau'r Arglwydd ei hun wrth ei ddisgyblion yn Luc 12: 'Oherwydd lle mae eich trysor, yno hefyd y bydd eich calon.'

Lle mae'ch un chi?

Fe glywais o'r pulpud rhywdro nad oes dim o'i le mewn edrych yn ôl, a dychwelyd i ambell fan, ond i ni beidio aros yno, peidiwch â phoeni dydw i innau ddim am wneud chwaith. Rwyf yn ôl yn Rhuthun yn ddiogel. Wel ia tan y tro nesaf efallai?

Iorwerth P Jones, Rhuthun

AILAGOR ADDOLDAI YN RADDOL

Yn raddol fach, mae addoldai Cymru yn dechrau ailagor, gyda threfniadau diogelwch gofalus yn eu lle. Mae'r ailagor hwn yn digwydd yn unol â rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru, sy'n cael eu diweddarau'n rheolaidd. Gallwch ddarllen crynodeb o'r canllawiau cyfredol ar dudalen arbennig gwefan Cytûn, sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd.



Mewn llythyr at y Fforwm Cymunedau Ffydd (sy'n cynnwys Cytûn a llawer o gyrff crefyddol eraill yng Nghymru) ar Fehefin 25, dywedodd y Dirprwy Weinidog yn Llywodraeth Cymru, Jane Hutt, AS: 'Mae'r gefnogaeth a'r arweiniad yr ydych wedi ei ddangos i'n cymunedau ledled Cymru wedi bod yn wirioneddol eithriadol. Hoffwn gofnodi fy niolch a chyfleu fy ngwerthfawrogiad i chi.

'Mae methu cael mynediad i fannau addoli wedi bod yn anodd i gynifer o bobl, ac mae llawer o ddigwyddiadau arwyddocaol, gweddiâu, gwyliau crefyddol a seremonïau naill ai heb gael eu cynnal o gwbl, neu wedi gorfod cael eu cynnal mewn ffyrdd gwahanol iawn. Ni fyddai'r symudiad diweddar i ddechrau ailagor addoldai, lle mae'n ddiogel i wneud hynny, wedi digwydd mor llwyddiannus heb eich cymorth, eich cyngor a'ch dealltwriaeth. ... Yr wyf fi, a'm swyddogion, yn

croesawu ac yn gwerthfawrogi'n fawr eich cytundeb i barhau â'r ymgysylltu hwn wrth inni symud ymlaen i lacio'r mesurau cyfyngiadau symud ac ystyried sut y gallwch alluogi seremonïau a defodau eraill i ailddechrau, a gwneud hynny'n ddiogel.

'Mae'r ffordd yr ydym yn gweithio mor llwyddiannus ar draws crefyddau, credoau a chymunedau yng Nghymru yn wirioneddol arbennig. Mae'r gwaith yr ydych yn ei wneud gyda'ch gilydd ar draws cymunedau ffydd a gyda Llywodraeth Cymru yn dangos yn glir sut y gall cydweithio effeithiol fod o fudd i'n holl gymunedau.'

Yn y cyfamser, bu eglwysi yn gweithio mewn ffyrdd amgen. Ar Awst 14 aeth Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford, AS, i Eglwys St Thomas yng Nghaerffili i weld prosiect CARE (Church Assistance Request in an Emergency) a sefydlwyd fis Mawrth i ddanfôn parseli bwyd, siopa a meddyginiaeth, yn ogystal â chynnig cymorth emosiynol i unrhyw un yn ardal cod post CF83 a oedd angen help ychwanegol. Ers hynny, mae dros 100 o wirfoddolwyr – o bobl ifanc i bensynwyr – wedi ateb miloedd o alwadau ffôn a danfôn miloedd o borseli bwyd, gan helpu cannoedd o bobl.

Dywedodd y Prif Weinidog, Mark Drakeford: 'Mae hi wedi bod yn fraint dod yma heddiw a chwrrd â'r Parchedig Ddeon a'r tîm o wirfoddolwyr. Mae prosiect CARE yn fenter ardderchog sy'n llawn pobl gymwynasgar a ymatebodd yn gyflym a gyda chalon gynnes, er yr amgylchiadau heriol.'

Dywedodd y Parchedig Ddeon Aaron Roberts: 'Mae'r ymweliad wedi bod yn galondid mawr i'n holl wirfoddolwyr yma. ... Rydym wedi'n syfrdanu gan gefnogaeth yr ardal leol sydd wedi cyfrannu arian a bwyd, ond hefyd amser ac egni i sicrhau bod pobl yn cael y gofal sydd ei angen arnynt. Bydd ein helusen nawr yn rhoi blaenoriaeth i feithrin cadernid yn ein cymunedau a pharhau i gynnig cymorth ymarferol wrth inni addasu ein bywydau i'r normalrwydd newydd yr ydym ar fin ei ddarganfod wrth i'r genedl geisio adfer o'r cyfnod clo.'

(Allan o Fwletin Polisi Cytûn, Awst/Medi)

Adnabod Cymeriadau'r Testament Newydd – Yr Efengylau

Cyfes o astudiaethau Beiblaidd ar gyfer y cartref neu grŵp gan y Parch. Denzil I. John

Mae fideo o'r deunydd i'w weld yn yr adran 'Gwersi Ysgol Sul i Oedolion' ar sianel deledu www.cristnogaeth.cymru

Gwers 10

Y bachgen bach yn y dyrfa

Gweddi: Argwydd, yn hanes cyfraniad y bachgen bach, ar goll ynghanol tyrfa mor fawr, dyro i ni weld ein cyfle a'n cyfrifoldeb i gynnig ein hunain yn dy wasanaeth. Defnyddia ni i'th bwrpas ac er dy glod. Amen.

Darllen: Ioan 6:1–15

Cyflwyniad

Prin yw'r enghreifftiau o ddigwydd-

iadau neu ddamhegion sy'n cael eu hadrodd ym mhob un o'r pedair efengyl, ond mae Porthi'r Pum Mil yn un ohonynt. Eto, nid yw'r manylion yn gwbl gyson chwaith, a pha ryfedd? Roedd ffynonellau'r awduron yn amrywiol ac roedd deng mlynedd ar hugain o wahaniaeth yn y cyfnod ysgrifennu. Nid yr un oedd eu cynulleidfaoedd targed, ac roedd eu hamgylchiadau'n sicr o fod yn wahanol. Byddai llawer wedi digwydd rhwng cyhoeddi Efengyl Marc yn 65 OC ac ysgrifennu efengylau Mathew a Luc, ddeg i bymtheg mlynedd yn

ddiweddarach, ac roedd Ioan yn hwyrach fyth. Ar wahân i gwmp Jerwsalem yn 70 OC, roedd ofn a therfysg yn y tir a chwyldro o fath yn sicr yn y gwynt.

Byddai Porthi'r Pum Mil wedi bod yn dipyn o ddigwyddiad yn ein cyfnod ni, heb sôn am ardal ddigon gwledig ar gyrion pellaf ymerodraeth Rhufain yn 31 OC. Pwy fyddai'n disgwyl gweld cynulleidfa yn aros am amser mor hir? Ond roeddent wedi cael profiad o awel iachach yn eu ffroenau nag awelon môr a mynydd. Awel Duw yn eu plith oedd yr awel hon, a byddent yn dilyn beth bynnag y gost. Yn eu plith roedd crwt bach dienw, nad yw Mathew, Marc na Luc yn cyfeirio ato o gwbl, ond bod Ioan wedi cofio am y plentyn. Snac crwt bach wedi dilyn y dyrfa oedd y pum torth a'r ddau bysgodyn. Rhyfeddod yr hanes oedd bod Iesu wedi rhoi trefn ar y bobl, a throi'r annigonol i fod yn fwy na

(parhad ar y dudalen nesaf)

Adnabod Cymeriadau'r Testament Newydd (parhad)

digon. A'r Efengylwyr yn pwysleisio bod Iesu yn darparu ar gyfer ei bobl, beth bynnag yw maint y cythlwg.

Myfyrdod

Pa enghreifftiau o lyfrau hanes ein bywydau personol neu o hanes y ddynoliaeth sy'n portreadu'r annigonol a'r amhosibl mewn bywyd? Beth bynnag ein cynnydd mewn gwybodaeth, gallu a grym, rydym yn dal yn annigonol, yn anghenus ac yn sylfaenol wan. Dyw'r dyhead mwyaf, na'r deisyfiad taeraf, ddim yn mynd i gyrraedd pwynt llwyddiant. Dyw ein cariad llwyrfa byth yn berffaith. Ar ein mwyaf ysbrydol, rydym yn cydnabod yr elfennau bydol, dynol a hunanol ynom. Yn ein profiadau o fod â'n cefnau yn erbyn y wal, fel y dywedir yn Saesneg, mae'r anffyddiwr yn gweddio am achubiaeth o rywle. Yn hanes yr Hebraid yn ffoi o'r Aiffit yng nghyfnod Moses, mae anobaith yn gwasgu ac yn galw ar Dduw am ymyrraeth wyrthiol.

Beth yw ein stori ni, ac i ba raddau

mae ein ffydd yn ddigon i ymddiried yng ngallu Duw? 'Rhowch chwi rywbeth iddynt i'w fwyta,' meddai Iesu wrth ei ddisgyblion. 'Pe byddai gennym ddigon o arian, a phe bai darparwyr bwyd o fewn cyrraedd, allen ni ddim ond estyn briwsion.' Ac mae Iesu yn cymryd y cam o ddarparu: 'Duw'n darpar o hyd at raid dynol-ryw, / yw'n cysur i gyd a'n cymorth i fyw'. Efallai mai'r pwynt a gollodd y tri Efengyllydd cyntaf oedd mai bachgen bach a ddaeth â'r snac i ochr y mynydd – y diniweitiaf, y lleiaf, a'r anamlwg o blith y miloedd. Dilyn y dyrfa wnaeth ef, heb feddwl a heb wybod, ac fe ddarparodd Iesu ar gyfer miloedd yn sgil y cyfraniad hwn gan blentyn bach. Cawn sylwi eto ar bwysigrwydd plant i'r Iesu, ond yma un plentyn sy'n hawlio lle wrth ymyl Iesu. Sawl plentyn nad ydym yn ei glywed a'i weld? Allai byrbryd plentyn fyth ddigoni un dyn, heb sôn am y dyrfa, ond yng ngeiriau'r gân gyfoes: 'Ond pan dry yr un yn gannoedd ac yn filoedd, / cawn weld y dydd yn dod, cawn weld y dydd

yn dod'. O ganol ein hofnau a'n hannigonolrwydd heddiw, beth yw natur ein breddwydion a maint ein dyheadau?

Gweddï

Cymorth ni, nefol Dad, i weld ehangder dy weledigaeth a phrofi mwy o'r sicrwydd bendigaid hwnnw sy'n mentro gan gredu bod Iesu yng nghanol ein byd. Amen.

Trafod ac ymateb:

- A oes perygl inni golli enghreifftiau o gyfraniad yr unigolyn ynghanol tyrfaedd byd?
- Beth fyddai'r rhesymau posibl i Iesu ddweud wrth y disgyblion, 'Rhowch chwi rywbeth iddynt i'w fwyta'? Ai cyfrannu'n sylweddol i'r asiantaethau dyngarol ddylem ei wneud pan fydd argyfwng byd-eang, neu weddio'n daerach?
- Beth, dybiwch chi, oedd gan y 5,000 i'w ddweud ddydd Gwener y Groglith, a beth ar fore'r Pasg?

HOUSING JUSTICE CYMRU: CYNLLUN CADARNLE



Daeth ein hysbrydoliaeth ar gyfer y cynllun hwn o'r adnod yma: Yr ARGLWYDD yw fy nghraig, fy nghadernid a'm gwaredydd; fy Nuw yw fy nghraig lle llochesaf, fy nharian, fy amddiffynfa gadarn a'm caer (Salm 18:2).

Nod y cynllun Cadarnle yng Nghymru yw helpu pobl i ddod o hyd i'r lle cadarn oddi fewn iddynt eu hunain, adeiladu cadernid fel y byddant yn llai tebygol o gael eu hunain yn ddigartref ac yn gallu cadw gafaél ar eu tenantiaeth.

Mae'r cynllun Cadarnle yn gwneud hyn drwy hyfforddi gwirfoddolwyr i weithio gydag unigolion, yn defnyddio dull seiliedig ar gryfder i helpu pobl i nodi beth sy'n bwysig iddyn nhw a'i gyflawni. Mae'r cynllun Cadarnle

yn defnyddio model 'Cylchoedd Cefnogaeth' er mwyn adeiladu rhwydwaith o gefnogaeth ar gyfer unigolion, yn cynnwys unrhyw asiantaethau sydd eisoes ynglŷn â'r sefyllfa a mudiadau eraill allai fod o ddefnydd i'r unigolyn. Byddai Gwirfoddolwyr Cadarnle yn cyfarfod ag unigolion yn rheolaidd (mewn man cyhoeddus megis caffï) dros gyfnod o 3–6 mis i gychwyn, ac yn cael eu goruchwylio gan Gydlynnydd Cynllun Cadarnle yn fisol er mwyn sicrhau fod pob perthynas yn llwyddiannus.

Datblygwyd Cadarnle oherwydd i ni weld bwlch a'r angen am fodel cefnogi o'r fath. Gwyddom fod oddeutu 90% o bobl sydd wedi profi digartrefedd yn y pum mlynedd diwethaf yn poeni o hyd

am eu sefyllfa, sy'n dweud wrthym fod yna angen enfawr am gefnogaeth barhaus er gwaethaf y gwasanaethau sy'n bodoli eisoes.

Gallwch wylïo ffilm fer am gynllun Cadarnle yma: <https://youtu.be/J-ZiQ5 VAjU>

**Bonnie Navarra, Cyfarwyddydd,
Housing Justice Cymru**

(Daw'r hanes yma o gylchlythyr diweddaraf Housing Justice Cymru. Os hoffech danysgrifio i'r Cylchlythyr hwnnw, cysyllter â: b.navarra@housingjustice.org.uk Pob llun yn yr erthygl hon: Housing Justice Cymru.)



MODDION GRAS

Cyfres yn ystyried beth sy'n angenrheidiol wrth inni barhau i addoli a gwasanaethu ein Harglwydd Iesu Grist yn y cyfnod hwn.

gan y Parch. PETER H. DAVIES

7. 'RWY'N CANU FEL CANA'R ADERYN...

Braf oedd clywed yr adar yn canu'n hapus yn y coed yn ystod y cyfnod clo! Dyna sain a'm swynai yn ddyddiol – yr adar yn canu mor rhydd ag erioed a ninnau wedi ein cyfyngu i'n cartrefi. Ond tybed ai fel eos neu frân y canwn ninnau mewn oedfa? Efallai nad oes gennyh chi lais canu da neu efallai eich bod yn canu fel Bryn Terfel neu Rebecca Evans, ond y mae pawb ohonom wedi ein distewi rhag cyfrannu ein lleisiau gyda'n gilydd mewn moliant i Dduw ar hyn o bryd nes y daw'r gwaharddiad i ben.

Cristnogol y tu fewn i'r eglwys. Mae'r *negro spiritual* yn fynegiant o ormes a dyhead y dyn du am ryddid yn wyneb gormes creulon y dyn gwyn. Mae canu'r salmau'n ddigyfeiliant yn eglwysi Ynysoedd Heledd (Hebrides) yn yr Alban yn fynegiant o addoliad plaen y Cristnogion yn y fan honno. Ac mae canu corawl yr oratorio yn fynegiant mawreddog o addoliad y cyfansoddwyr Ewropeaidd.

Mae canu pedwar llais erbyn hyn wedi mynd yn beth dieithr o fewn yr eglwysi. Yn anffodus, fe'n hamddifadir o gyfoeth harmoni am ganu unsain. Dyma'r ffurf gyffredin ar ganu o fewn eglwysi Saesneg eu hiaith.



Mae ein traddodiad canu cynulleidfaol yn un hir. Slawer dydd yng Nghymru cynhelid dosbarthiadau cân wrth i athrawon cerddoriaeth deithio'r wlad yn dysgu gwersi cerdd i bobl. Yn nes ymlaen mewn capeli, trwythwyd pobl i ganu'n gynulleidfaol. Nid rhyfedd felly'r disgrifiad o Gymru fel gwlad y gân!

Mae rhai ohonom yn cofio'r cantor (codwr canu) wrth ei waith yn arwain y gân mewn oedfa capel. Ond daeth tro mawr ar fyd a phrin bellach yw'r cyfryw rai yng nghapeli ein gwlad. Mae hyd yn oed y Gymanfa Ganu wedi colli tir mewn sawl lle, er gwaetha'r mynd oedd ar y Gymanfa Ganu Fodern.

Gwelir y dirywiad mewn canu cynulleidfaol ymhlith cefnogwyr rygbi oherwydd prin iawn y clywir yr hen emynau Cymraeg yn cael eu canu ganddynt heddiw. Dengys hyn y datgysylltiad mawr rhwng yr eglwys a'r gymdeithas. Nid yn unig y tonau ond y geiriau hefyd sy'n mynd yn angof!

Ceir traddodiadau gwahanol o ganu

Ceir gwrthwynebiad gan rai i ganeuon cyfoes. Ac fe geir sylwedd yn hyn yn gymaint ag y cenir rhai cytganau dro ar ôl tro. Mae angen pryd da o fwyd (emynau), beth bynnag, ar gyfer y Cristion yn ogystal â salad ysgafn (cytganau) fel ei fod yn cael *balanced diet*. Cryfder defnyddio sgrin i ddangos emynau yw bod person yn

gallu codi ei ben i ganu clod i'r Arglwydd ac nad oes raid bod yn gaeth i'r rhai yn y llyfr emynau yn unig.

Bu amser yn hanes capeli Cymru pryd y dadleuwyd o blaid ac yn erbyn gosod organ o fewn yr adeilad. Y ddadl o blaid cael y fath offeryn a enillodd y dydd. Erbyn hyn beth bynnag, caed lleihad yn y nifer a all ganu'r organ a hyd yn oed waharddiad ar ei defnyddio rhag lledu'r coronafeirws hyd yn ddiweddar.

Gwrthwynebiad arall a geir yw'r defnydd o offerynnau amrywiol mewn oedfaon (mae yma adlais o'r gwrthwynebiad i'r organ gynt). Honnir bod hyn yn troi'r oedfa o fod yn wasanaeth ysbrydol i fod yn gyngerdd cnawdol. Rhaid bod yn ofalus felly gan gofio mai cyfrwng yw'r canu, boed â'r llais neu'r offeryn, i'r diben o addoli Duw (Ioan 4:23-4).

Yn wyneb prinder cantorion o fewn y capeli mae angen i'r pregethwr bellach arwain y gân. Er nad dyna ei briod waith, eto dylai geisio gwella ei ganu ei hun. Golyga hyn godi'r llyfr emynau fel nad yw ei drwyn ynddo a bod ei lais i'w glywed gan y gynulleidfa.

Mae intrada ar ddechrau oedfa yn ffordd briodol i'r gynulleidfa godi ei golwg at yr Arglwydd. Dylai'r emyn agoriadol fod yn un addolgar sy'n gosod y sylw ar Dduw ac nid ar ddydd. Gellid canu amrywiaeth o emynau neu gytganau o fewn yr oedfa sy'n tynnu ar ddysgeidiaeth Gristnogol a phrofiadau'r saint. A dylai'r emyn olaf gyd-fynd â'r neges er mwyn ei chadarnhau ym meddyliu a chalonnau aelodau'r gynulleidfa. Gellid cloi'r oedfa drwy ganu diweddglo priodol. Dyhewn am y dydd y bydd modd inni ganu eto yn rhan naturiol o'n hymateb a'n mawl i Dduw am ei holl ddaioni.

GWEDDÏO A GWEITHIO DROS Y CREAD

Bydded i Dduw, a sefydlodd ddawns y cread, a ryfeddodd wrth lili'r maes, sy'n trawsnewid dryswch yn drefn, arwain ni i drawsnewid ein bywydau ninnau a bywyd yr Eglwys i adlewyrchu gogoniant Duw yn y cread.

Mae Cytûn yn gwahodd eglwysi i gynnal Sul yr Hinsawdd rywbryd rhwng 6 Medi 2020 a 5 Medi 2021, wrth i wledydd Prydain baratoi i groesawu cynhadledd hinsawdd bwysig COP26 i Glasgow yn Nhachwedd 2021.

Mae deunydd Cymraeg, gan gynnwys trefn oedfa gyflawn, ar wefan Cytûn: <http://www.cytun.co.uk/hafan/deunydd-addoliar-gyfer-sul-yr-hinsawdd-a-thymor-y-cread/> gyda dolenni i doreth o ddeunydd Saesneg ychwanegol ar <https://www.climatesunday.org/>

Fe'n sicrhair bod llawer mwy o ddeunyddiau i ddod dros yr wythnosau nesaf!



Sul yr
Hinsawdd

Lladd o leiaf 500 o Gristnogion Ethiopia mewn ymosodiadau didrugaredd ers mis Mehefin

Galwodd arweinydd Cristnogol o Ethiopia am ymchwiliad rhyngwladol i'r lladd a fu ar gannoedd o Gristnogion, gan gynnwys menywod beichiog, plant a theluoedd cyfan, o ganlyniad i ymosodiadau gan Fwslimiaid Oromo eithafol. Mae'r ymosodiadau hyn, a ddechreuodd ddiwedd mis Mehefin, yn dal i ddigwydd mewn rhannau o dalaith Oromia, i'r de, y de-ddwyrain a'r dwyrain o Addis Ababa. Yn ôl adroddiadau, cafodd dros 500 o bobl eu lladd.


Dechreuodd y llofruddiaethau, a gysylltir â'i gilydd ac sy'n targedu Cristnogion o ystod eang o gefndiroedd ethnig gan gynnwys Cristnogion Oromo, yn fuan ar ôl llofruddiaeth honedig y canwr Oromo poblogaidd Hachallu Hundessa, a gafodd ei saethu'n farw ar 29 Mehefin wrth yrru ar gyrion y brifddinas.

Daw'r ymosodwyr o grŵp ethnig Oromo, grŵp Mwslimaidd yn draddodiadol, ac maent yn aelodau o Qeerroo (sy'n golygu 'dynion sengl'), mudiad ieuencid i ddynion.

Mewn ymosodiadau systematig ar aelwydydd Cristnogol, fe gyrhaeddodd eithafwyr Qeerroo mewn ceir. Wedi'u harfogi â gynnuau, machetes, cleddyfau a gwaywffyn, aethant ati i chwilio am Gristnogion a'u lladd. Gorfodwyd plant i weld eu rhieni'n cael eu llofruddio'n greulon â machetes.

Cadarnhaodd cysylltiadau Cronfa Barnabas yn y rhanbarth fod ymosodiadau wedi digwydd mewn nifer o drefi gan gynnwys Arsi Negele, Ziway, Shashemane, Gedeb Asasa, Kofele, Dodola, Adaba, Robe, Goba, Bale Agarfa, Chiro, Harar, Dire Dawa, Adama, Dera, Asela a Kembolcha, gan ymestyn ymhell i dde-ddwyrain a dwyrain y wlad.

Roedd gan rai o'r eithafwyr Qeerroo restrau o Gristnogion ac fe'u cynorthwywyd gan awdurdodau lleol, sy'n aml yn cael eu rhedeg gan Fwslimiaid yn rhanbarth Oromia, i ddod o hyd i unigolion, yn enwedig y rhai sy'n weithredol yn eu cefnogaeth i'r Eglwys.



Dywedodd tystion lleol fod yr heddlu yn sefyll o'r neilltu ac yn gwyltio wrth i'r llofruddiaethau ddatblygu. Fodd bynnag, achubwyd rhai Cristnogion yn Bale Agarfa drwy ymyrraeth Mwslimiaid lleol dewr a oedd yn peryglu eu bywydau eu hunain i'w hamddiffyn.

Cafodd adeiladau busnesau a thai Cristnogion eu llosgi, eu fandaleiddio neu eu dinistrio gan yr eithafwyr. Achoswyd biliynau o ddoleri o ddfrod i eiddo, gan gynnwys busnesau sy'n eiddo i Haile Gebreselassie, yr athletwr Cristnogol o fri rhyngwladol, yn nhrefi Ziway a Shashamahe. Roedd tystion lleol wedi'u syfrdanu gan ddifrifoldeb yr erchyllterau a chafwyd adroddiadau am olygfeydd dirdynnol.

Mae miloedd o oroeswyr sydd wedi dioddef trawma mawr wedi ffoi am eu bywydau, gan gynnwys plant amddifad, ac mae llawer yn cael eu cysgodi mewn eglwysi a chanolfannau cymunedol. Dywedodd un cyswllt rhanbarthol wrth fudiad Barnabas, 'Mae llawer yn dal i fyw mewn ofn. Daeth arweinwyr Cristnogol o bob enwad i ymweld â'r ardaloedd. Gwyliais newyddion lle roedd offeiriadau a gweinidogion yn eu dagrau wrth wrando ar hanesion am

erchyllterau gan deuluoedd y dioddefwyr.'

Mewn ymgais i leihau annog trais drwy sianeli'r cyfryngau cymdeithasol, ataliodd llywodraeth Ethiopia y rhyngwyd yn y rhanbarth am sawl wythnos. Mae lluoedd diogelwch y llywodraeth wedi bod yn araf yn ymyrryd i atal yr erchylltra, sy'n cael ei gymharu â'r cynnydd mewn llofruddiaethau a arweiniodd at hil-laddiad Rwanda. Fodd bynnag, mae miloedd wedi cael eu harestio ers hynny, yn ôl adroddiadau o'r rhanbarth, gan gynnwys swyddogion lleol sydd â chysylltiad â'r ymosodiadau.

Ers 27 Awst, dywed cysylltiadau'r mudiad Barnabas yn y rhanbarth fod 'hil-laddiad wedi'i dargedu' o Gristnogion gan yr eithafwyr yn parhau i'r de, y de-ddwyrain a'r dwyrain o Addis Ababa.

Mae Cristnogion Ethiopia sydd mewn cysylltiad â Barnabas yn annog darllenwyr a chefnogwyr pryderus i gysylltu â'u llysgenhadaeth Ethiopiaidd i alw am weithredu ar unwaith i atal yr erchyllterau sy'n parhau yn nhalaith Oromia ar hyn o bryd.

Ers mis Medi 2018 mae gwrthdaro ethnig treisgar wedi arwain at ddadleoli rhyw ddwy filiwn o Ethiopiaidd o fewn y wlad.

(Gan gysylltiadau Cronfa Barnabas sy'n cefnogi Cristnogion dan erledigaeth ledled y byd. www.barnabasfund.org)

Cyfeiriad Golygydd Y PEDAIR TUDALEN

Huw Powell-Davies

pedair.tudalen@gmail.com

neu Llifor, 60 Ffordd Rhuthun,
Yr Wyddgrug, CH7 1QH

Anfonwch eich erthyglau, hysbysebion
a.y.y.b. i'r cyfeiriad uchod.

Mae'r Pedair Tudalen Gydenwadol yn cael eu cynnwys yn rhan o bapurau wythnosol tri enwad, sef *Y Goleuad* (Eglwys Bresbyteriaidd Cymru), *Seren Cymru* (Undeb Bedyddwyr Cymru) a'r *Tyst* (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg).



Oedfa Radio Cymru

13 Medi am 12:00yp, yng ngofal
Delyth Davies, Chwilog

Y Silff Lyfrau




Yn ystod y cyfnod clo hwn mae'n siŵr fod llawer ohonom wedi manteisio ar y cyfle i ddarllen cyfrolau a fu ar ein silffoedd am flynyddoedd, ond a oedd heb eu darllen gyfan gennym. Un o'r cyfrolau hynny yn ein tŷ ni yw'r un y rhoddaf sylw iddi y tro hwn yn yr hyn sy'n hanner canfed cyfraniad i'm cyfres 'Y Silff Lyfrau'. Dr. Thomas Parry oedd Prifathro Coleg Prifysgol Aberystwyth pan ddeuthum yn fyfyrwr yno yn 1960. Roedd wedi dilyn gŵr gwahanol iawn iddo a oedd wedi gadael o dan amgylchiadau cythryblus, sef Goronwy Rees. Gŵr a ymgorfforai awdurdod yn ei osgo a'i lais oedd Dr. Parry, ond un a oedd ar yr un pryd yn un hynod hawdd siarad ag ef. Hyfryd bob amser oedd ei weld ef a'i briod annwyl, y Fonesig Enid Parry, yn cymryd eu lle ym mlaen y capel yn Seilo yn y dref bob bore Sul.

Bu farw Thomas Parry yn 1985 ac un mlynedd ar ddeg yn ddiweddarach ymddangosodd casgliad o'i ysgrifau mewn cyfrol yn dwyn y teitl *Amryw Bethau*. Y diweddar Emlyn Evans, Gwasg Gee, oedd wedi annog ac yn y diwedd hyrwyddo ei chyhoeddi ar draws y blynyddoedd, er nad oedd yr awdur ei hun yn orawyddus i hynny ddigwydd. Ar ei dechrau ceir cyflwyniad gan y diweddar annwyl Athro J. E. Caerwyn Williams, cyfaill

mawr iddo: ysgolhaig mawr a diymhongar a fu'n aelod gyda'i briod hawddgar o'm cynulleidfa i am nifer o flynyddoedd pan oeddwn yn weinidog ifanc yn Y Borth. Er imi frawychu ar y cyntaf pan ddechreuodd fynychu'r gwasanaethau ar fore Sul, fe'i cefais yn gyfaill ffyddlon ac yn gefn ac yn anogwr imi yn y dyddiau cynnar hynny o'm prentisiaeth yn y weinidogaeth. Ysgrifenna'n annwyl iawn am Thomas Parry gan amlinellu'n glir a chytbwys troeon ei yrfa hynod amrywiol a llwyddiannus fel ysgolhaig, beirniad llenyddol, a gweinyddwr. Fe'i dilynir gan ddwy bennod hunangofiannol lle adroddir am ei fagwraeth ym mhentref chwarelyddol Carmel, Dyffryn Nantlle. Eglurir yma hefyd sut yn union yr oedd yn perthyn i ddau o'n beirdd mawr. Bu ei daid yn briod deirgwaith: cynnyrch y briodas gyntaf oedd tad Robert Williams Parry; i'r ail briodas ganwyd tad T. H. Parry-Williams, ac roedd y drydedd wraig yn nain i Thomas Parry, sef mam ei dad.

Yn naturiol felly, rhydd le i drafod agweddau ar waith ei gefnderwydd, ac yn achos R. Williams Parry mae'n manylu ar yr anghydfod a fu rhyngddo ag awdurdodau'r Coleg ym Mangor ac yn arbennig ei berthynas â Syr Ifor Williams, pennaeth yr Adran Gymraeg. Roedd Syr Thomas Parry hefyd yn aelod o'r Adran ar y pryd a cheisia gyflwyno'r holl fater cythryblus hwn mor ddiuedd â phosibl.

Yng ngweddill y gyfrol ceir adrannau lle trafodir yr adfywiad llenyddol ac ysgolheigaidd yn y Gymraeg yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, ond yr hyn a apeliodd fwyaf ataf i yw'r mynych benodau ar unigolion, yn academwyr, yn feirdd ac yn llenorion. Enghraifft hyfryd o'r math hwn o ysgrif yw ei deyrnged i'r Parch. Huw Roberts, a fu'n



olygydd *Y Goleuad*, sy'n llawn anwylydeb at y gwrthrych. Cyffelyb yw ei ymdriniaeth ar agweddau ar waith ei gyfaill John Gwilym Jones. Yn wir, nodweddir y gyfrol hon gan ysbryd hyfryd: mae'n llawn cydymdeimlad a gwerthfawrogiad o'r nifer fawr o bobl a gaiff sylw ynddi. Ni ymddengys byth arlliw o feirniadaeth lem a rhagfarnlyd. I'r gwrthwyneb cyflwynir yr atgofion, y deunydd llenyddol a'r sylwadau treiddgar mewn modd sy'n denu ac yn dal sylw'r darllenydd yn wastad. Da, yn wir, oedd cael y cyfle hwn i droi'n ôl at gyfrol mor ddengar.

John Tudno Williams

Gol. Priodol yw nodi'n ddiolchgar mai dyma'r hanner canfed cyfraniad John Tudno Williams i'r Silff Lyfrau. Diolch am gyfoethogi'n darllenwyr.


MEINI BYWOL (parhad o dudalen 1)

Eglwys yr Holl Genhedloedd – adeilad mawreddog a hardd sy'n sefyll ar safle eglwysi cynt yn dyddio'n ôl i'r bedwaredd ganrif. Oddi fewn i'r eglwys ac o flaen yr allor mae craig yn dod i'r wyneb. Yn ôl traddodiad dyma'r fan lle gweddiodd Iesu, 'O Dad, os wyt ti'n fodlon, cymer y cwpan hwn oddi wrthyf. Ond gwnele'r dy ewyllys di, nid fy ewyllys i.' Adeiladwyd yr eglwys dros y graig ac enw arall arni yw Basilica'r Dioddefaint. Yn y fangre hon down yn eithriadol o agos at Iesu'r dyn ac Iesu'r Duw.

Wedi iddo gael ei gymryd gan y milwyr fe'i gorfodwyd i groesi afon Cedron a dechrau dringo i fyny i dŷ'r archoffeiriad. Ychydig yn is na'r tŷ mae grisiau hir o gerrig garw sy'n dyddio nôl i gyfnod Iesu. Dychmygais ei weld yn cael ei

luso i fyny'r grisiau gan filwyr didrugaredd a hyn yn rhagfynegiad o'r dioddefaint oedd i ddod.

Mae cerdded y Via Dolorosa – Ffordd y Dioddefaint yn brofiad dirdynol.



VIA DOLOROSA

Llun gan Daniel Tsai ar Pixabay

Mae cannoedd o Gristnogion o wahanol wledydd yn cyd gerdded gan ganu emynau a gweddïo. Bydd rhywun yn dringo'r rhan fwyaf o'r amser a cheir eglwysi yma ac acw ar hyd y ffordd lle syrthiodd Iesu o dan bwysau'r groes. Mae un yn arbennig i gofio am Seimon o Cyrene yn codi'r groes ac yn ei chario i ben y bryn. Yno y croeshoeliwyd, y claddwyd ac yr atgyfododd ein Harglwydd. Erbyn heddiw eglwys rwysgafwr sydd yma. Dyma'r meini sy'n fynegiad o ffydd cenhedloedd byd ac mae llawenydd rhyfeddol yma.

Eirlys Gruffydd-Evans

(Gol. Diolch i'r Parch Eirlys Gruffydd Evans am ei harweiniad i'r **Meini Bywiol** yn ystod yr wythnosau diwethaf ac am ein tywys i fannau sy'n daearu'n ffydd.)

Dyma gyfarfod hyfryd iawn...

GWEDDI

O Arglwydd Dduw, hollalluog, yn Dad, yn Fab ac yn Ysbryd Glân, yr wyt yn deilwng o'n holl fawl. Nid wyt erioed wedi methu â chadw dy addewidion. Nid wyt wedi bod yn rhy gynnar nac yn rhy hwyr yn dy atebion. Ac yr wyt wedi addo i'th eglwys y byddi yn eu plith os ceisiwn dy enw di. Caniatâ felly i ninnau heddiw wybod dy fod yn cartrefu ym mawl dy bobl. Mewn byd o ofn ac ansicrwydd dyro i ni weld o'r newydd mai ti Arglwydd yw ein rhan. Drwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen

EMYN 366: Iesu, cyfaill f'enaid i

Mae'n debyg y byddem i gyd yn cytuno bod 'maddeuant' yn beth dymunol ac yn ddelfryd i ymgynraedd ato. Mae digon o enghreifftiau o effeithiau diffyg maddau neu o beidio â maddau i'n gilydd i'w gweld. Gallwn feddwl, mae'n siŵr, am achosion yn ein cymunedau, ein teuluoedd neu yn rhyngwladol. Ac os ydych chi wedi treulio oes yn gwasanaethu mewn capeli Cymru fe fyddwch wedi clywed am enghreifftiau o aelodau capeli sydd heb siarad â'i gilydd am ddegawdau oherwydd bod un wedi tramgwyddo aelod arall.

Oedwn am foment i feddwl am rywun heddiw yr ydym yn parhau i ddal dig yn eu herbyn a heb faddau iddynt.

Rhybudd: Ni fyddwn yn medru ymdrin â holl oblygiadau ystyr 'maddau' heddiw. Codi'r llen yn unig a wneir a hynny mewn perthynas i'n darlleniad.

DARLLEN: Mathew 18: 21-36 Dameg y gwas anfaddeugar

Byddwn yn sylwi ar ddwy adran.

Darlleniad 1 – Mathew 18: 21-22 Ydych chi wedi blino maddau?

I bob un ohonom daw'r cwestiwn ymarferol – 'sawl gwaith y mae fy nghyfaill i bechu yn fy erbyn a minnau i faddau iddo?' Roedd Athrawon y Gyfraith (Rabbi) yn weddol gytûn mai teirgwaith oedd yr ateb priodol. Mae'n debyg bod Pedr yn tybed bod ei awgrym o saith gwaith a chynsail Beiblaidd iddo. (Genesis 4:15) Ac onid oedd y proffwydi wedi addo cyfamod newydd oedd wedi ei seilio ar faddeuant? (Jeremeia 31:34) Oni fyddai 'seithwaith' yn ddehongliad hael ac yn gydnaws â dysgeidiaeth

Iesu? Onid oedd Iesu wedi dysgu'i ddisgyblion i weddio gan ofyn 'maddau i ni ein dyledion fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr'? (Mathew 6:12) Sylwn fod trosedd a dyled yn un yn meddwl Iesu.

Sawl gwaith mae maddau yn ôl Iesu? (ad 22)

Darlleniad 2 – Mathew 18: 23-35 Oblygiadau derbyn maddeuant.

Er mwyn i bawb ddeall yr ergyd yn ei ddameg mae Iesu'n defnyddio darluniau eithafol i danlinellu ei neges. A dylem nodi hefyd nad yw Iesu'n cymeradwyo na chaethwasanaeth nac arteithio chwaith. Defnyddio darluniau byw o'r byd cyfoes a wna.

'Rhywbeth fel hyn yw byw o dan Deyrnasiad Duw. Dych chi'n cofio sut mae brenhinoedd neu Ymerawdwr yn codi trethi, a'r ffordd y mae disgwyl i bennaeth bob talaith gasglu'r swm penodedig? Ac i bob sir o fewn y dalaith a phob ardal o fewn y cymunedau fe gofiwch fod stiwardiaid yn gyfrifol am sicrhau'r swm oedd yn ddyledus. A 'dych chi'n siŵr o fod yn adnabod rhai o'ch cyfeillion neu eich cydnabod sydd wedi mynd i drafferth am i'r cynhaeaf fethu ac iddynt fethu â thalu eu trethi. 'Dych chi'n cofio faint o drugaredd a gawson nhw pan wnaethon nhw fethu â thalu? Dychmygwch yn awr un o'n tywysogion (Herod efallai oedd yn gorfod talu 200 o ddarnau arian i Rufain yn flynyddol) yn penderfynu bwrw golwg dros ei gyfrifol a sylwi yno bod un o'i weision heb gwrdd â'r gofynion ers peth amser a'i fod mewn dyled sylweddol. Yn wir roedd ei ddyled (yn ôl un esboniwr) yn cyfateb i gymaint o arian bath oedd mewn bodolaeth. (Efallai y byddem ni'n dweud fod arno £100 triliwn. Mae'r swm er mwyn effaith ac yn ddychmygol.) Sut tybed allai'r stiward glirio'i ddyled? Fe allai'r brenin werthu'r gwas a'i deulu a'i eiddo. Ond fyddai hynny ddim yn cyffwrdd â maint y ddyled.

A'r jôc yw hyn. Bod y gwas yn gofyn 'bydd yn amyneddgar wrthyf ac fe dalaf y cwbl iti.'

Fel byddai Mr Picton yn dweud wrth Wali Tomos. 'Na. No. Nefar'. Fyddai o byth mewn 60 mlynedd hyd yn oed o dalu ei holl gyflog i'r brenin yn medru talu gwerth un darn o arian pur.

Dych chi'n gwybod mewn cyfnod o

argyfwng neilltuol bod ambell i frenin wedi gohirio dyled am ychydig ond mae hwn yn 'tosturio' ac yn 'maddau' ei ddyled yn llawn a rhoi 'rhyddid' iddo.'

'Ond choeliech chi fyth. Yn affodus ni wnaeth y stiward sylweddoli oblygiadau ei ryddid a'i berthynas gyda gŵr oedd â dyled gymharol fach – yn cyfateb efallai i dri mis o gyflog. Syrthiodd y gwas oedd mewn dyled ar ei liniau. Roedd modd clirio'r ddyled hwn gydag amynedd. Ond yn lle trugarhau gosododd y gwas cyntaf ei gyd-was mewn man lle nad oedd modd iddo ad-dalu'r ddyled byth. Yn y carchar, heb incwm, heb fodd heb ddyfodol a heb obaith. Nid oedd trugaredd na maddeuant na rhyddid.

Buan y daeth y rhagrith hwn i'r golwg a 'blinwyd yn fawr iawn' y gweision eraill gan ymddygiad y gwas anfaddeugar. Fe'i galwyd drachefn ger bron ei feistr – nid dyledion ariannol oedd y drafferth y tro hwn. Oni ddylai'r un a brofodd drugaredd hefyd drugarhau, a'r un a brofodd faddeuant faddau? Ac er y gallai'r meistr fod wedi 'maddau' yr eildro mae'n dewis peidio.

Nid yw maddeuant yn golygu cau'n llygaid i drosedd, neu gam, neu gasineb. Maddeuant yw derbyn cost yr adfer i'n cyfrif ni. Maddau i eraill yw dysgu gweithredu beth a gawsom gan ein Tad nefol.

Ystyriwn: Os ydym wedi derbyn maddeuant oes yna rywun heddiw sydd angen i ni faddau iddynt?

GWEDDI

O Dduw, o weld yng Nghrist bod cyflawnder annherfynol o bopeth y medraf ei angen neu ei ddymuno, a wnei di ganiatáu i ni ras ar ben gras; gras i faddau ein pechodau a gorchfygu'n amhuredd; i'n cyfiawnhau ac i sancteiddio ein heneidiau, ac adnewyddiad ein calonnau fydd yn cyflawni ynom y ddelw ogoneddus a greaist ynom. O, gwna ni yn dderbynion yn dy olwg i rannu yn etifeddiaeth y saint yn y goleuni.'

GWEDDI DAWEL.

GWEDDI'R ARGLWYDD.

EMYN 863:
lôr, gwna fi'n offeryn dy hedd